TGAU

3010N10-1

W23-3010N10-1

**DYDD GWENER, 13 IONAWR 2023 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.

**Yn y cerddi mae'r beirdd yn sôn am ryfeddodau neu brofiadau sy'n gwneud bywyd yn lliwgar.**
**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
  - Beth yw'r rhyfeddodau yn y ddwy gerdd?
  - Sut mae pethau'n newid rhwng dechrau a diwedd y cerddi?
  - Beth ydy neges y ddau fardd?
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd** arddull / mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa **un** o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Y Sbectol Hud**

Pan fydd yr haul yn cwato'r sêr i gyd,
a'r nos ar goll tu ôl i ddrws y dydd,
pan fydd y lleuad wen ym mhen draw'r byd,
a'r machlud fel y wawr ar orwel cudd;
neu pan fydd niwl yn gwisgo'r bryniau draw,
a phlu yr eira'n oeri brigau'r llwyn,
pan fydd y blodau trist yn crio'r glaw –
rho bâr o sbecs dychymyg am dy drwyn.

Ti'n gweld, mae gweld yn anodd ambell waith
a ninnau'n ddall i ryfeddodau'r byd,
am hyn, fy ffrind, cyn dechrau ar dy daith,
ym mhoced ôl dy jîns rho'r sbectol hud.
A gwisga hi, a mentra godi'r llen
i weld holl liwiau'r enfys sy'n dy ben.

Mererid Hopwood

**Tân Gwyllt**

Mae Tachwedd llawn rhyfeddod
a'r *taniad awr eto'n dod,
uwch *yr hwyr daw fflach o wres,
cannoedd o *wreichion cynnes
yn *chwyrlïo heno'n lân
i'r gorwel aur ac arian.

Holl sŵn y lliw sy'n y lle
a'r haul ar goll yn rhywle,
a Mam a *Nain yn mwynhau'n
y cawodydd cleciadau,
cawodydd o rocedi
fel glaw dur drwy'n hawyr ni.

Oren ac aur, yna gwyn,
ychydig o goch wedyn,
a draw, un *Guto druan
ddaw i ben ar domen dân,
*haid o blant yn codi bloedd,
a melyn fesul miloedd.

A bore'n gwawrio'n barod
fe ddaeth heno i beidio bod,
mae'r fflamau a'r lliwiau'n llwch,
a *dwli yn dawelwch,
lliwiau llwyd sydd hyd y lle
a'r haul yn ôl o rywle.

Tudur Dylan Jones

**Geirfa**

* taniad awr – amser cynnau tân
* yr hwyr – nos
* (g)wreichion – darnau bychan o dân
* chwyrlïo – hedfan
* Nain – Mam-gu
* Guto – Guto Ffowc
* haid – criw, nifer
* dwli – lol, hwyl

**DIWEDD Y PAPUR**